

## Gwasanaethau Cymdeithasol

# Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth

Mae'r daflen hon yn dweud wrthyfch sut i:

Ddweud wrthym os ydych wedi cael gwasanaeth da



Neu

Gwyno os ydych yn anhapus gyda gwasanaeth



Mae'r daflen hon yn hawdd i'w darllen  
Mae'r gwybodaeth hefyd ar gael yn Saesneg

## Gwneud sylw neu roi canmoliaeth

Mae angen eich sylwadau a'ch canmoliaeth ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu i wella ein gwasanaethau.



Efallai yr hoffech ddweud wrthym am y pethau da rydym wedi eu gwneud. Rydym yn galw hyn yn **rhoi canmoliaeth**.

Efallai yr hoffech ddweud wrthym am eich syniadau i wneud ein gwasanaethau yn well. Rydym yn galw hyn yn **gwneud sylw**.

Mae eich barn yn bwysig iawn i ni.

**Byddwn yn gwrando ar eich barn chi**

P'un ai ydych yn rhoi canmoliaeth neu'n gwneud cwyn, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i roi'r cymorth gorau y gallwn i chi.

## Gwneud Cwyn



Efallai eich bod yn anhapus am ein gwasanaethau. Os ydych yn anfodlon am unrhyw un o'n gwasanaethau, hoffem i chi ddweud wrthym. Rydym yn galw hyn yn gwneud cwyn.



Os hoffech chi gael help i wneud cwyn, gallwch ofyn i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi, neu gallwn eich helpu i ddod o hyd i eiriolwr. Mae eiriolwr yn berson cymwys a fydd yn eich cefnogi gyda'ch cwyn. Nid oes rhaid i chi dalu am ddefnyddio eiriolwr.

## Cam 1

Cysylltwch â Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddweud wrthym os ydych wedi cael gwasanaeth da, neu os ydych yn anfodlon gyda gwasanaeth



Ffôn  
**0800 032 1099**



Wyneb yn wyneb



Ysgrifennwch at

**Y Swyddog Cwynion**  
**Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Tŷ Russell**  
**Churton Road**  
**Y Rhyl**  
**Sir Ddinbych**  
**LL18 3DP**



E-bost  
[ssdcomments@denbighshire.gov.uk](mailto:ssdcomments@denbighshire.gov.uk)



Ar-lein  
[www.sirddinbych.gov.uk/eichllais](http://www.sirddinbych.gov.uk/eichllais)

Dylem ddelio â'ch problem o fewn 3 wythnos.

## Cam 2 Beth os ydwi i'n dal yn anfodlon?



Byddwn yn gofyn i rywun o'r tu allan i'r Cyngor i edrych ar eich cwyn. Gelwir y person hwn yn Swyddog Ymchwilio Annibynnol.

Bydd y Swyddog Ymchwilio yn siarad â chi a phobl eraill sy'n gysylltiedig, i gael gwybod beth sydd wedi digwydd.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth rydym wedi ei ddarganfod. Bydd hyn yn cymryd tua 5 wythnos.

## Beth os wyf yn dal yn anfodlon ar ôl Cam 2?

Gallwch gysylltu â:  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yr Ombwdsmon yw'r person i siarad gyda nhw os ydych yn credu nad yw eich cyngor wedi edrych ar eich cwyn yn y ffordd gywir.

Nid yw'r Ombwdsmon yn cymryd ochrau ac mae'n penderfynu ar bethau'n deg.




Gallwch ysgrifennu at yr Ombwdsmon:

1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
Caerdydd  
CF35 5LJ

**Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n gwneud cwyn**


## **Cam 1**

Os ydych yn anhapus am rywbeth, cysylltwch â Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol



## **Cam 2**

Os ydych yn anhapus gyda'r ateb y cawsoch ar Gam 1, gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hystyried unwaith eto, gan rywun o'r tu allan i'r Cyngor.



## **Ombwdsmon**

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus os ydych yn dal yn anhapus gyda'r ymateb y cawsoch chi.

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn ieithoedd ac/neu fformatau eraill ar eich cais. Ffoniwch 0800 032 1099 i gael rhagor o fanylion.**